**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Alun Ffred Jones AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

30 Hydref 2015

Annwyl Alun Ffred

Yn ystod Cwestiynau'r Cynulliad ddydd Mercher 7 Hydref, dywedais y byddem yn ymateb i'ch cwestiwn ynghylch y cynnydd yn nifer y rhywogaethau gwarchodedig o adar yng Nghymru. Roedd y cwestiwn yng nghyd-destun y pryderon ynghylch y rhywogaethau trefol o wylanod.

Mae nifer o rywogaethau o wylanod yng Nghymru, a phob un ohonynt wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae gwylanod yn nythu'n naturiol ar glogwyni creigiau uwchben y môr ac maent yn bwydo yn y dyfroedd cyfagos. Mae rhai rhywogaethau, megis gwylan y penwaig a'r wylan gefnddu leiaf yn arbennig, yn dod yn fwyfwy cyffredin mewn amgylchedd trefol. Y ddwy rywogaeth hon sy'n cael eu hystyried gan rai yn rywogaethau 'niwsans'.

Darparwyd yr wybodaeth ganlynol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bu dirywiad ar draws y DU o oddeutu 50% yn nifer y gwylanod penwaig a'r gwylanod cefnddu er ddechrau'r 70au. Yn ystod y degawdau diwethaf mae nifer y gwylanod yng Nghymru sydd yn eu safleoedd magu naturiol wedi gostwng yn sylweddol. Mae'n ymddangos yn debygol mai'r rheswm am y dirywiad hwn yw bod ffynonellau eu bwyd naturiol yn dirywio a bod llai o wastraff o'r diwydiant pysgota.

O gymharu â'r dirywiad mawr yn y ddwy rywogaeth yn eu nythfeydd arfordirol traddodiadol, gwelwyd bod cynnydd yn y nifer sy'n nythu mewn ardaloedd trefol. Cofnodwyd cynnydd o oddeutu 14% mewn gwylanod penwaig trefol ar gyfer y DU rhwng dechrau'r 70au a dechrau y 2000au. Felly hefyd, ar draws y DU, mae gwylanod cefnddu lleiaf wedi cynyddu o 325 o nythod yn 1976 i 10,583 o nythod erbyn 2002. Mae cyfrif diweddar bellach yn amcangyfrif bod 640 pâr o wylanod penwaig a 3,300 pâr o wylanod cefnddu leiaf yng Nghaerdydd yn unig.

Yn gywir

Carl Sargeant

**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*